

Ffurflen gais

Am y ffurflen hon

Dim ond unwaith fydd angen i chi wneud cais am Fenthyciad Ôl-raddedig.

Gallwch wneud cais ar-lein ar www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk a dyma'r ffordd hawsaf o wneud cais.

Dyddiad cau er mwyn ymgeisio

Y dyddiad cau ar gyfer cwrs sy'n para blwyddyn yw naw mis o ddiwrnod cyntaf eich blwyddyn academaidd. Ar gyfer cyrsiau hirach, y dyddiad cau yw naw mis o ddiwrnod cyntaf blwyddyn olaf y cwrs.

Cyn i chi llenwi'r ffurflen hon

Bydd angen i chi ddarllen yr wybodaeth ar www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk am y Benthyciad Ôl-raddedig.

Rydym wedi creu canllawiau a fydd yn dweud mwy wrthyich am:

- Pwy sy'n gallu cael Benthyciad Ôl-raddedig
- Sut a phryd y byddwch yn cael eich talu
- Sut y byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad a phryd fyddwch yn dechrau ad-dalu.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen ac yn deall yr holl wybodaeth yma cyn gwneud cais.

Os nad ydych yn siŵr a yw'ch cwrs yn gymwys ar gyfer cael Benthyciad Ôl-raddedig ar ei gyfer, dylech siarad â'ch prifysgol.

Bydd angen i chi sicrhau bod 'Nodiadau Ategol Cais am Fenthyciad Ôl-raddedig' wrth law pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen gais hon. Trowch at www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk i'w lawrlwytho.

Diogelu Data

Bydd angen i chi ddarllen ein datganiad diogelu data cyn cwblhau'ch cais.
Trowch at www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/diogeludata i ddarllen y datganiad.



Sut i lenwi'r ffurflen hon

- Dilynwch y cyfarwyddiadau, byddwn yn dweud wrthyfch pa gwestiynau fydd angen i chi eu hateb a phari y gallwch eu hanwybyddu.
- Bydd angen i chi ateb yr holl gwestiynau y gofynnir i chi eu hateb. Bydd unrhyw wybodaeth sydd ar goll yn oedi'ch cais.
- Os byddwn yn gofyn am ddogfennau ategol, bydd angen i ni eu cael cyn y gallwn dderbyn eich cais. Bydd unrhyw ddogfennau ategol sydd ar goll yn oedi'ch cais.

Defnyddiwch y nodiadau ategol i'ch helpu i lenwi'ch cais



Pan fyddwch yn gweld yr eicon hwn, mae'n golygu bod gwybodaeth ychwanegol yn y 'Nodiadau Ategol Cais am Fenthyciad Ôl-raddedig'.

Gallai hon fod yn wybodaeth ynghylch sut i ateb cwestiwn neu adran neu gyfarwyddyd i anfon dogfennau ategol penodol.

Darllenwch y nodiadau – os na fyddwch yn ateb cwestiwn neu adran yn gywir, neu os na fyddwch yn cynnwys y dogfennau y bydd angen i ni eu cael, bydd hyn yn oedi'ch taliadau.

Gallwch weld y nodiadau hyn trwy droi at www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl

Gallwch wneud cais am Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl (DSAs) os oes gennych chi anabledd sy'n bodloni'r diffiniad o anabledd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys:

- cyflwr iechyd hirdymor
- cyflwr iechyd meddwl
- anhawster dysgu penodol, er enghraifft: dyslecsia

Telir DSAs ar wahân i unrhyw gyllid arall i fyfyrwyr. Maent yn eich helpu i dalu'r costau ychwanegol y gallech fod yn eu hwynebu oherwydd eich anabledd. Ni fydd yn rhaid eu talu'n ôl. Bydd faint fyddwch yn cael yn dibynnu ar eich anghenion unigol.

I ymgeisio neu i gael gwybod mwy am DSAs, trowch at www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Help a gwybodaeth ychwanegol

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y Benthyciad Ôl-raddedig, gallwch:

- fynd i www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk
- ein dilyn ar twitter sef @SF_Wales
- chwilio amdanom ar Facebook/SFWales
- gwyllo ein ffilmiau ar YouTube/SFWFILM

Os na allwch ddod o hyd i'r wybodaeth mae angen i chi ei chael ar-lein, gallwch ein ffonio ar **0300 200 4050**.

Mae'n holl ffurflenni a'n canllawiau ar gael mewn Braille, print mawr neu fel fersiynau sain. Os byddwch angen y rhain, gallwch ofyn amdanynt trwy anfon neges e-bost gyda'ch enw, cyfeiriad a manylion y ffurf y mae gofyn i chi ei chael, at: brailleandlargefont@slc.co.uk neu ffonio **0141 243 3686 (dim ond delio â cheisiadau am ffurfiau amgen y mae'r rhif hwn yn ei wneud)**.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y 6 pheth canlynol cyn gwneud cais am Fenthyciad Ôl-raddedig.

- 1** Dim ond un Benthyciad Ôl-raddedig allwch chi gael. Os ydych chi wedi derbyn unrhyw gyllid benthyciad tuag at radd meistr ôl-raddedig yn flaenorol, nid ydych chi'n gymwys i ymgeisio.
- 2** Gallwch wneud cais am fenthyciad o hyd at £10,280. Telir hwn ar ffurf rhandaliadau i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol.
- 3** Codir llog arnoch ar eich benthyciad cyn gynted ag y byddwn yn gwneud eich cyntaf talu i chi. Mae eich cyfradd llog yn cynnwys y Mynegai Prisiau Manwerthu ynghyd â 3% ychwanegol. Yn y dyfodol gallai hyn fynd i fyny neu i lawr.
- 4** Codir llog arnoch nes byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad yn llawn neu nes y caiff eich benthyciad ei ganslo ar ôl 30 o flynyddoedd – pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.
- 5** Bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r benthyciad, ond dim ond pan fydd eich incwm dros £21,000 y flwyddyn.
- 6** Byddwch yn ad-dalu 6% o'ch incwm y flwyddyn (dros £21,000) tuag at eich Benthyciad Ôl-raddedig. Bydd angen ad-dalu hwn ar yr un pryd ag unrhyw fenthyciadau myfyrwyr eraill yr ydych chi wedi' cael.

Eich gwybodaeth

Defnyddir yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn ystod y broses ymgeisio i asesu'ch hawl i gael cyllid i fyfyrwyr. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir. Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth anghywir yn y cais hwn mewn ffordd fwriadol.

Rydych yn barod i wneud cais am Fenthyciad Ôl-raddedig nawr

Adran 1 Eich manylion

1.1 Manylion personol

Dylech nodi'r manylion hyn yn union fel y maent yn ymddangos ar eich pasbort, eich tystysgrif geni neu'ch cerdyn adnabod.



Os yw'ch enw wedi newid ers y rhoddwyd eich pasbort, eich tystysgrif geni neu'ch cerdyn adnabod i chi, bydd angen i chi anfon dogfennau atom i ddangos hyn. Darllenwch y nodiadau i gael gwybod beth i'w anfon.

Teitl

Mr Mrs Miss Ms
 Doctor Athro

Enw(au) cyntaf

Cyfenw/enw teuluol

Dyddiad geni

DIWRNOD MIS BLWYDDYN
 / /

1.2 Cyfeirnod Cwsmer (os oes un gennyh)

Mae'ch Cyfeirnod Cwsmer yn cynnwys 11 digid.

Bydd gennych chi Gyfeirnod Cwsmer os ydych wedi gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr, neu os ydych wedi cefnogi cais rhywun arall am gyllid i fyfyrwyr, gan unrhyw un o'r canlynol:

- Y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr
- Student Finance England
- Cyllid Myfyrwyr Cymru
- Student Finance NI

1.3 Man geni

Enw'r pentref, y dref neu'r ddinas.

1.4 Eich cenedligrwydd

Os oes gennych chi statws 'Person Heb Wladwriaeth', nodwch Heb Wladwriaeth yn y blwch testun.

1.5 Rhif Yswiriant Gwladol y DU



Os ydych wedi gweithio yn y DU yn flaenorol, nodir eich rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw rai o'r canlynol:

- eich llythyr neu'ch cerdyn rhif Yswiriant Gwladol; neu
- slip cyflog; neu
- ddogfen Treth Incwm megis P45 neu P60.

Ni roddir unrhyw daliad o'ch benthyciad nes byddwch yn darparu'ch rhif Yswiriant Gwladol, oni bai eich bod yn fyfyrwr o'r Undeb Ewropeaidd (UE).

 - -

Adran 1 Eich manylion – parhad

1.6 Pa iaith ydych yn dymuno i ni ei defnyddio yn y llythyrau y byddwn yn eu hanfon atoch?

Os na fyddwch yn dewis iaith, byddwn yn anfon llythyrau atoch yn Saesneg. Gallwch newid eich dewis ar unrhyw adeg, trwy ein ffonio ni.

Saesneg

Cymraeg

1.7 Manylion cyswllt

A fydddech gystal â darparu cyfeiriad e-bost oherwydd bydd hyn yn ei gwneud yn haws i chi greu cyfrif ar-lein.

Bydd angen i chi roi gwybod i ni cyn gynted ag y bo modd os bydd **unrhyw rai** o'ch manylion yn newid.

Rhif ffôn cartref

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

1.8 Beth yw cyfeiriad eich cartref?

Bydd angen i chi roi gwybod i ni cyn gynted ag y bo modd os bydd **unrhyw rai** o'ch manylion yn newid.

Cyfeiriad eich cartref (nodwch y cyfeiriad llawn)

Cod post

Gwlad

1.9 A fyddwch chi'n byw mewn man arall ac eithrio cyfeiriad eich cartref pan fyddwch yn astudio?

Byddwch yn gallu diweddarau'ch cyfeiriad(au) ar unrhyw adeg trwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein neu'n ffonio ni.

Na fyddaf – ewch i 1.11

Byddaf – nodwch fanylion

Cyfeiriad yn ystod y tymor

Cod post

Gwlad

1.10 Pryd wnaethoch chi/fyddwch chi'n symud i'ch cyfeiriad yn ystod y tymor?

DIWRNOD MIS BLWYDDYN
 / /

Adran 1 Eich manylion – parhad

1.11 Rhoi gwybodaeth am eich banc neu'ch cymdeithas adeiladu yn y DU

Rhaid bod hwn yn gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU sydd yn eich enw chi ac mae'n rhaid ei fod yn gallu derbyn credydau uniongyrchol.

Os nad oes gennych chi gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU, bydd angen i chi gael un cyn y gallwn eich talu. Rhowch fanylion y cyfrif i ni cyn gynted ag y gallwch.

Sylwer y bydd manylion banc neu gymdeithas adeiladu anghywir yn arwain at oedi taliadau'ch benthyciad.

1.12 A fyddwch chi'n gwneud cais am Lwfansau i Fyfirwyr Anabl (DSAs)?

Gallwch wneud cais am DSAs os ydych yn fyfyrwr addysg uwch, os ydych yn byw yng Nghymru ac mae gennych chi anabledd gan gynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol.

Am ragor o wybodaeth am DSAs, trowch at www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Cod didoli

 - -

Rhif y cyfrif

Cofrestrif cymdeithas adeiladu (os yw hynny'n berthnasol)

Na fyddaf – Ni fyddaf yn gwneud cais am DSAs

Byddaf – Rydw i eisoes wedi gwneud cais am DSAs

Byddaf – Byddaf yn gwneud cais am DSAs
Gallwch lawrlwytho'r 'Cais am Lwfansau i Fyfirwyr Anabl' o www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/ffurflenni

Adran 2 Eich gweithgarwch astudio blaenorol

Os ydych chi wedi derbyn cyllid benthyciad tuag at radd meistr ôl-raddedig yn flaenorol gan Student Finance England, Cyllid Myfyrwyr Cymru, Student Finance Northern Ireland neu'r Student Awards Agency Scotland, nid ydych yn gymwys i gael Benthyciad Ôl-raddedig ac ni ddylech gyflwyno cais.

2.1 A ydych chi'n meddu ar gymhwyster ôl-raddedig yn barod?

Nac ydw – ewch i **Adran 3**

Ydw

2.2 Ticiwch y blwch perthnasol i ddangos pa gymhwysr rydych wedi'i gael



Gradd ddoethur

Gradd Meistr

Gradd Meistr Integredig

Meistr Anrhydeddus
(Graddau MA gan Brifysgol Rhydychen, Caergrawnt, Coleg y Drindod Dilyn neu Brifysgol yn yr Alban)

Tystysgrif Ôl-raddedig

Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)

Diploma Ôl-raddedig

Cymhwyster ôl-raddedig arall – Nodwch fanylion isod
(gan gynnwys unrhyw gymhwyster ôl-raddedig a sicrhawyd mewn gwlad dramor)

Teitl y cwrs

Enw'r cymhwyster

Enw'r brifysgol neu'r sefydliad addysgol

Cyfeiriad

Cod post

Gwlad

Adran 3 Eich cwrs ôl-raddedig

3.1 Nodwch fanylion y cwrs meistrol-raddedig yr ydych chi wedi cais amdano

Os ydych chi wedi gwneud cais am fwy nag un cwrs Meistr, dywedwch wrthym am yr un yr ydych chi yn ei ffafrio.

Nodwch gymaint o fanylion ag y gallwch ar yr adeg pan fyddwch yn gwneud cais.

Os ydych chi yn dilyn cwrs astudiaethau cyfunol neu fodiwlaid, rhestrwch yr holl bynciau yr ydych chi eu hastudio.

Os bydd unrhyw rai o'r manylion hyn yn newid, mewngofnodwch i'ch cyfrif ar-lein neu ffoniwch ni i ddiweddarau'ch gwybodaeth.



Darllenwch y nodiadau i gael gwybod mwy am y gwahanol fathau o gyrsiau. Neu holwch eich prifysgol os nad ydych chi yn siŵr am beth i'w dde wis.

Enw'r brifysgol

Cyfeiriad y brifysgol

Cod post

Gwlad

Enw'r campws/lleoliad

Enw'r cwrs

Dyddiad cychwyn blwyddyn gyntaf eich cwrs

MIS

BLWYDDYN

 /

Math o gwrs

Meistr a Addysgir

Meistr seiliedig ar Ymchwil

Math o astudio a hyd y cyfnod astudio

Amser llawn – 1 flwyddyn

Amser llawn – 2 flynedd

Rhan-amser – 2 flynedd

Rhan-amser – 3 blynedd

Cyfateb â chwrs amser llawn (FTE) 2 flynedd

Rhan-amser – 3 blynedd

Rhan-amser – 4 blynedd

Rhan-amser – Heb benderfynu (FTE 2 flynedd)

Adran 3 Eich cwrs ôl-raddedig

3.2 A ydych chi'n gymwys i wneud cais am fwsariaeth GIG?



- Nac ydw
- Ydw – ni ddylech barhau gyda'ch cais. Bydd angen i chi wneud cais am y fwsariaeth GIG, darllenwch y nodiadau am ragor o wybodaeth.

3.3 A ydych chi'n gymwys i wneud cais am fwsariaeth Gwaith Cymdeithasol?



- Nac ydw
- Ydw – a ydych chi wedi gwneud cais am hon, a gwrthodwyd eich cais?
- Nac ydw – ni ddylech barhau gyda'ch cais. Bydd angen i chi wneud cais am y fwsariaeth, darllenwch y nodiadau am ragor o wybodaeth.
- Ydw – Rydw i wedi gwneud cais a gwrthodwyd fy nghais. Bydd angen i chi anfon eich llythyr gwrthod gyda'ch cais.

3.4 Ai cwrs dysgu o bell yw hwn?



Os 'le', dim ond os ydych yn byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf eich blwyddyn academaidd y gallwch gael y benthyciad hwn, oni bai eich bod chi neu aelod o'ch teulu yn y Lluoedd Arfog. Darllenwch y nodiadau i gael gwybod pa aelodau o'r teulu sy'n gymwys ac i gael rhagor o wybodaeth.

- Na
- Ie – a ydych chi'n byw mewn gwlad dramor oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch teulu yr ydych yn byw gyda nhw yn y Lluoedd Arfog?
- Nac ydw
- Ydw – bydd angen i chi anfon tystiolaeth atom. Darllenwch y nodiadau i gael gwybod beth i'w anfon.

Adran 4 Eich gwybodaeth breswyllo

4.1 A ydych chi'n ddinesydd y DU?

Nac ydw – ewch i 4.3

Ydw

4.2 A oes gennych chi basbort y DU dilys, nad yw ei ddyddiad wedi dod i ben?



Nac oes – bydd angen i chi anfon dogfennau ategol er mwyn profi pwy ydych chi. Darllenwch y nodiadau i gael gwybod beth i'w anfon a dylech gynnwys hyn gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi.

Oes – nodwch y manylion canlynol yn union fel y maent yn ymddangos yn eich pasbort.

Dyddiad cyhoeddi

DIWRNOD MIS BLWYDDYN
 / /

Dyddiad dod i ben

DIWRNOD MIS BLWYDDYN
 / /

Rhif pasbort

Enw(au) a roddwyd

Cyfenw

Ewch i Adran 5

4.3 A ydych chi'n ddinesydd UE?



Nac ydw – ewch i 4.4

Ydw – bydd angen i chi anfon dogfennau ategol i brofi pwy ydych chi. Darllenwch y nodiadau i gael gwybod beth i'w anfon a dylech gynnwys hyn gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi.

Ewch i Adran 5

4.3 A ydych chi'n aelod o deulu dinesydd UE?



Nac ydw – ewch i 4.5

Ydw – Dywedwch wrthym am ei berthynas â chi. (er enghraifft, “mam”)

Bydd angen i chi anfon dogfennau ategol er mwyn profi cenedligrwydd yr aelod o'ch teulu a'r berthynas â chi. Darllenwch y nodiadau i gael gwybod beth i'w anfon a dylech gynnwys hyn gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi.

Ewch i Adran 5

Adran 4 Eich gwybodaeth breswyllo – parhad

4.5 A ydych chi'n blentyn dinesydd Swistrol?



- Nac ydw – ewch i **4.6**
- Ydw – A fydd eich rhiant sy'n ddinesydd Swistrol yn byw yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?
- Na fydd – ewch i **4.6**
- Bydd – bydd angen i chi anfon dogfennau ategol er mwyn profi cenedligrwydd eich rhiant a'i berthynas â chi. Darllenwch y nodiadau i gael gwybod beth i'w anfon a dylech gynnwys hyn gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi.
Ewch i Adran 5

4.6 A ydych chi'n ddinesydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'n ddinesydd Swistrol:



- sy'n gweithio yn y DU
- sydd wedi gweithio yn y DU ac sy'n chwilio am waith yn y DU?

- Nac ydw – ewch i **4.7**
- Ydw – A fyddwch chi'n parhau i weithio yn ystod eich astudiaethau ôl-raddedig?
- Na fyddaf – ewch i **4.7**
- Byddaf – mae angen i chi lawrlwytho a llenwi ffurflen Statws Cyflogaeth y DU a'i dychwelyd gyda'ch cais am Fenthyciad Ôl-raddedig.

Mae ffurflen Statws Cyflogaeth y DU ar gael o
www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk/ffurflenni
Ewch i Adran 5

4.7 A oes unrhyw rai o'r canlynol:



- eich gŵr/gwraig/partner sifil
- eich rhiant(rhieni)/llys-riant(llys-rieni)
- eich plentyn/mab/merch-yng-nghyfraith/partner sifil eich plentyn yn ddinesydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'n ddinesydd Swistrol:
- sy'n gweithio yn y DU
- sydd wedi gweithio yn y DU ac sy'n chwilio am waith yn y DU?

- Nac oes – ewch i **4.8**
- Oes – A fydd yn parhau i weithio yn ystod eich astudiaethau ôl-raddedig?
- Na fydd – ewch i **4.8**
- Bydd – bydd angen i chi lawrlwytho a llenwi ffurflen Statws Cyflogaeth y DU a'i dychwelyd gyda'ch cais am Fenthyciad Ôl-raddedig.

Mae ffurflen Statws Cyflogaeth y DU ar gael o
www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk/ffurflenni
Ewch i Adran 5

Adran 4 Eich gwybodaeth breswyllo – parhad

4.8 A ydych chi'n blentyn gweithiwr o Dwrci sy'n gweithio yn y DU?



- Nac ydw – ewch i **4.9**
- Ydw – bydd angen i chi anfon dogfennau ategol er mwyn profi cenedligrwydd eich rhiant, y berthynas â chi a'i statws cyflogaeth. Darllenwch y nodiadau i gael gwybod beth i'w anfon, a dylech gynnwys hyn gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi.
Ewch i Adran 5

4.9 A ydych chi wedi sicrhau 'statws preswyllydd sefydlog' yn y DU?



- Nac ydw – ewch i **4.10**
- Ydw – Nodwch yr union ddyddiad pan roddwyd y statws hwn i chi
- DIWRNOD MIS BLWYDDYN
□ □ / □ □ / □ □ □ □
- Bydd angen i chi anfon dogfennau ategol er mwyn profi'ch statws. Darllenwch y nodiadau i gael gwybod beth i'w anfon a dylech gynnwys hyn gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi.
Ewch i Adran 5

4.10 A ydych chi neu'ch:



- gŵr/gwraig/partner sifil
- rhiant(rhieni)/llys-riant

wedi cael statws ffoadur gan Lywodraeth y DU?

- Nac ydw/nac ydi – ewch i **4.11**
- Ydw/ydi – Nodwch eich rhif y Swyddfa Gartref
- □ □ □ □ □ □ □
- Nodwch y dyddiad pan fydd hwn yn dod i ben
- DIWRNOD MIS BLWYDDYN
□ □ / □ □ / □ □ □ □
- Bydd angen i chi anfon dogfennau ategol er mwyn profi'ch statws chi/nhw a'r berthynas â chi. Darllenwch y nodiadau i gael gwybod beth i'w anfon a dylech gynnwys hyn gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi.
Ewch i Adran 5

Adran 4 Eich gwybodaeth breswyllo – parhad

4.11 A ydych chi neu'ch:



- gŵr/gwraig/partner sifil
- rhiant (neu rieni)/llys riant wedi derbyn:

'Caniatâd mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig o ganlyniad i gais aflwyddiannus am loches;

neu

- Caniatâd yn ôl Disgresiwn ble na wnaethpwyd cais am loches;

neu

- 'Caniatâd mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd personol;

neu

- 'Caniatâd mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig yn dilyn cais aflwyddiannus am 'Ganiatâd mynediad neu aros' ar sail bywyd personol ar sail Erthygl 8 yr ECHR;

neu

- Diogelwch Dyngarol?

Os nad ydych chi/nhw wedi cael dyddiad dod i ben, dylech nodi Amh (amherthnasol) yn y blwch sy'n gofyn am y dyddiad dod i ben.

4.12 A ydych chi neu'ch:



- gŵr/gwraig/partner sifil; neu
- rhiant (neu rieni), llys riant wedi derbyn hawl i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth?

Nac ydw/nac ydi – Nac ydw/ydi – ewch i **4.12**

Ydw/ydi – Nodwch eich rhif y Swyddfa Gartref

Nodwch y dyddiad pan fydd y statws hwn yn dod i ben

DIWRNOD MIS BLWYDDYN
 / /

Bydd angen i chi anfon dogfennau ategol er mwyn profi'ch statws chi/nhw a'r berthynas â chi. Darllenwch y nodiadau i gael gwybod beth i'w anfon a dylech gynnwys hyn gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi.

Ewch i Adran 5

Nac ydw/ – Os rhoddoch ateb negyddol i'r nac ydi holl gwestiynau yn yr adran hon, nid ydych yn gymwys i dderbyn Benthyciad Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Ydw/ydi – Rhowch eich rhif y Swyddfa Gartref

Nodwch y dyddiad pan fydd y statws hwn yn dod i ben

DIWRNOD MIS BLWYDDYN
 / /

Mae angen i chi anfon dogfennau ategol i brofi eich/ei statws a'i berthynas/pherthynas â chi. Darllenwch y nodiadau i weld beth i'w anfon a chynnwys hyn gyda'ch ffurflen gais wedi ei chwblhau.

Ewch i Adran 5

Adran 5 Hanes eich cyfeiriad

Mae angen i ni gael gwybod ble'r ydych chi wedi bod yn byw am **3 blynedd** cyn diwrnod cyntaf eich blwyddyn academiaidd gyntaf. Os byddwch yn gadael unrhyw fylchau yn hanes eich cyfeiriad, bydd hyn yn oedi'ch cais.

Diwrnod cyntaf eich blwyddyn academiaidd yw:

- 1 Medi, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Awst a chyn 1 Ionawr;
- 1 Ionawr, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Ionawr a chyn 1 Ebrill;
- 1 Ebrill, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill a chyn 1 Gorffennaf;
- 1 Gorffennaf, pan fo'ch cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Gorffennaf a chyn 1 Awst;

Er enghraifft

Os yw'ch cwrs yn cychwyn ar 5 Medi eleni, diwrnod cyntaf eich blwyddyn academiaidd yw 1 Medi. Bydd angen i ni gael gwybod hanes llawn eich cyfeiriad am 3 blynedd cyn 1 Medi.

5.1 Nodwch eich manylion preswyllo yn ystod y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf eich blwyddyn academiaidd.

Ni fydd angen i chi anfon prawf o'ch cyfeiriadau blaenorol ar yr adeg hon, ond efallai y byddwn yn gofyn amdano yn y dyfodol.

Os bydd angen mwy o le arnoch, dylech osod darn ychwanegol o bapur A4 wrth eich ffurflen wedi'i llenwi. Cofiwch gynnwys eich Cyfeirnod Cwsmer.

Cyfeiriad	
<input type="text"/>	
Cod post	Gwlad
<input type="text"/>	<input type="text"/>
Rhwng	A
DIWRNOD MIS BLWYDDYN	DIWRNOD MIS BLWYDDYN
<input type="text"/> <input type="text"/> / <input type="text"/> <input type="text"/> / <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/> / <input type="text"/> <input type="text"/> / <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>
Ticiwch y blwch hwn os byddwch yn byw yma pan fydd eich cwrs yn cychwyn <input type="checkbox"/>	
Dywedwch wrthym pam eich bod wedi symud yma	
<input type="text"/>	

Cyfeiriad	
<input type="text"/>	
Cod post	Gwlad
<input type="text"/>	<input type="text"/>
Rhwng	A
DIWRNOD MIS BLWYDDYN	DIWRNOD MIS BLWYDDYN
<input type="text"/> <input type="text"/> / <input type="text"/> <input type="text"/> / <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>	<input type="text"/> <input type="text"/> / <input type="text"/> <input type="text"/> / <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/>
Ticiwch y blwch hwn os byddwch yn byw yma pan fydd eich cwrs yn cychwyn <input type="checkbox"/>	
Dywedwch wrthym pam eich bod wedi symud yma	
<input type="text"/>	

Adran 6 Faint hoffech chi ei fenthyca?

Gwybodaeth am eich benthyciad

- Yr uchafswm y gallwch ei fenthyca yw £10,280.
- Telir eich benthyciad ar ffurf tri rhandaliad yn ystod pob blwyddyn academaidd.

Os bydd eich cwrs yn para mwy na blwyddyn:

- Rhennir y cyfanswm y byddwch yn ei fenthyca yn gyfartal dros gyfnod eich cwrs, hyd yn oed os na fyddwch yn gofyn am yr uchafswm.
- Os bydd eich cwrs yn para 3 blynedd, byddwn yn talu ychydig yn fwy i chi yn ystod eich blwyddyn olaf.

Er enghraifft: Os byddwch yn benthyca £10,280 ac os bydd eich cwrs yn para 4 blynedd, byddwch yn cael cyfanswm o £2,570 bob blwyddyn.

Neu, os byddwch yn dewis benthyca £8,500 ac os bydd eich cwrs yn para 3 blynedd, byddwch yn cael £2,833 yn ystod eich blwyddyn 1af a'ch 2il flwyddyn, a ddilynir gan £2,834 yn ystod eich 3edd blwyddyn.

Faint hoffech chi ei fenthyca fel cyfanswm?

Yr uchafswm sef **£10,280**

Swm gwahanol, sef £ ,

Adran 7 Eich cysylltiadau ychwanegol

Fe wyddom fod pobl weithiau'n anghofio dweud wrthym os byddant yn symud tŷ neu'n newid rhif ffôn. Er mwyn i ni allu cynnal ein cyswllt â chi, a fyddech gystal â nodi dau unigolyn cyswllt ychwanegol.

Dim ond er mwyn cysylltu â chi unwaith eto y byddwn yn defnyddio'u manylion nhw, dim byd arall. Trwy nodi'r manylion hyn, rydych yn cadarnhau eich bod wedi dweud wrthynt am hyn a'u bod yn fodlon i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr gysylltu â nhw yn ôl yr angen.

Pan fo modd, nodwch gysylltiadau sy'n byw yn y DU.

7.1 Nodwch fanylion cyswllt eich unigolyn cyswllt ychwanegol cyntaf

Ni chaiff yr unigolyn hwn fyw yn yr un cyfeiriad â chi.

Cyswllt 1

Enw llawn

Perthynas â chi

Cyfeiriad

Cod post/Rhif ardal

Rhif ffôn

gan gynnwys cod deialu rhyngwladol os yw y tu allan i'r DU

7.2 Nodwch fanylion cyswllt eich ail unigolyn cyswllt ychwanegol

Ni chaiff yr unigolyn hwn fyw yn yr un cyfeiriad â chi neu gyfeiriad eich unigolyn cyswllt cyntaf.

Cyswllt 2

Enw llawn

Perthynas â chi

Cyfeiriad

Cod post/Rhif ardal

Rhif ffôn

gan gynnwys cod deialu rhyngwladol os yw y tu allan i'r DU

Adran 8 Datganiad Benthyciad



Rhaid i chi lofnodi, dyddio a dychwelyd y ffurflen hon cyn y gallwn wneud unrhyw daliad i chi.

Cyn i chi lofnodi'ch ffurflen wedi'i llenwi a'i dychwelyd, dylech ddarllen:

- y datganiad diogelu data yn www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/diogeludata
- y canllaw i amodau a thelerau'ch Benthyciad Ôl-raddedig ("PGL") yn www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Caiff eich cais am gymorth ariannol ei oedi oni bai eich bod yn lofnodi, dyddio a dychwelyd y datganiad hwn.

Datganiad Cyffredinol

- Rydw i'n cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn gywir ac yn gyflawn. Os nad yw, deallaf na fyddaf efallai yn cael cymorth ariannol, y gallai unrhyw gymorth a gefais gael ei dynnu'n ôl ac y gallwn gael fy erlyn. Gallai unrhyw wybodaeth a ddarparir ac y darganfyddir ei bod yn anghywir mewn ffordd faterol gael ei hystyried fel tystiolaeth o ymgais i gamarwain y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig ("SLC"). Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd SLC yn adrodd am y mater i'r awdurdodau, a/neu'n terfynu'ch cymhwystra i gael cyllid i fyfyrwyr.
- Rydw i'n cytuno rhoi i SLC unrhyw wybodaeth y bydd gofyn iddynt ei chael er mwyn prosesu fy nghais ac rydw i'n cytuno dweud wrthynt ar unwaith os bydd fy amgylchiadau'n newid mewn unrhyw ffordd a allai effeithio ar fy hawl i gael cymorth ariannol. Os na fyddaf yn gwneud hyn, deallaf na fyddaf efallai yn cael unrhyw daliadau pellach, ac y gellir gofyn i mi ad-dalu'r cymorth ariannol yr wyf wedi'i gael yn barod.
- Rydw i'n cadarnhau nad wyf yn gymwys i wneud cais am y canlynol mewn perthynas â'm cwrs: bwrsariaeth gofal iechyd; neu unrhyw lwfans dan Reoliadau Lwfansau Myfyrwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth (Yr Alban) 2007.
- Rydw i'n cadarnhau na thalwyd ac na chyflwynwyd unrhyw lwfans, bwrsariaeth, neu ddyfarniad o ddisgrifiad tebyg i mi a wnaethpwyd dan adran 67(4)(a) Deddf Safonau Gofal 2000 ("CSA") neu adran 116(2)(a) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Rydw i'n cydnabod ac yn deall os wyf yn gymwys i wneud cais am gostau teithio dan CSA, nad yw gweithred o'r fath ar ei phen ei hun yn golygu nad wyf yn gymwys i gael PGL.
- Rydw i'n cadarnhau nad wyf wedi cael benthyciad mewn perthynas â gradd Meistr Ôl-raddedig yn flaenorol, lle y ddarparwyd y benthyciad hwnnw o'r cronfeydd a ddarparwyd gan awdurdod llywodraethol arall o fewn y Deyrnas Unedig ("DU").

- Os byddaf yn cael gordaliad o ran y cymorth ariannol, cytunaf fod rheidrwydd arnaf i ad-dalu hwn yn llawn ac y gallai SLC gymryd camau o'r fath sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau ad-daliad o'r fath.
- Os byddaf wedi darparu manylion fy mhasbort y DU, deallaf y bydd SLC yn cadarnhau'r manylion hynny gyda Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi.

Contract Benthyciad

- a Rydw i'n cadarnhau fy mod i wedi darllen a deall y canllaw i'r amodau a thelerau sydd ar gael ar-lein ar www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk
- b Rydw i'n cydnabod ac yn cytuno y bydd unrhyw fenthyciad(au) a roddir i mi gan Weinidogion Cymru (y "benthyciwr"), sy'n cynnwys unrhyw unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 23(4) Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (y "Ddeddf") fel y caiff ei diwygio o bryd i'w gilydd neu ddeddfwriaeth olynol, yn unol â'r amodau a nodir yn y datganiadau hyn ac mewn Rheoliadau a wneir dan adrannau 22 a 42(6) y Ddeddf, fel y caiff ei diwygio o bryd i'w gilydd.
- c Rydw i'n cydnabod ac yn cytuno, os byddaf: (i) wedi cyrraedd 18 oed; a (ii) wedi ymrwmo i un cytundeb benthyciad neu fwy dan adran 22 y Ddeddf (a deddfwriaeth eilaidd berthynol) cyn yr oeddwn yn 18 oed, wrth lofnodi'r datganiad hwn, fy mod yn cytuno cadarnhau unrhyw a phob benthyciad myfyriwr o'r fath. Deallaf fod cadarnhau unrhyw gytundeb am fenthyciad a wnaethpwyd gyda mi cyn yr oeddwn yn 18 oed yn rhag-amod statudol o'm cymhwystra i gael cymorth i fyfyrwyr ar ôl i mi gyrraedd 18 oed.
- d Rydw i'n ymrwmo i ad-dalu unrhyw fenthyciad(au) a roddwyd i mi i'r benthyciwr, ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau a fydd yn berthnasol.
- e Rydw i'n cytuno bod unrhyw fenthyciad(au) a roddir i mi o ganlyniad i'r ffaith bod y benthyciwr wedi derbyn fy nghais yn gontract(au) rhyngof i a'r benthyciwr, a fydd yn fy rhwymo o'r adeg pan delir taliad cyntaf y benthyciad i mi, ac y bydd gofyn i mi ad-dalu unrhyw fenthyciad(au) o'r fath, ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau a fydd yn berthnasol, i'r benthyciwr fel dyled.

Adran 8 Datganiad Benthyciad – parhad

- f** Rydw i'n cytuno y bydd rheidrwydd arnaf i ad-dalu fy menthyciad(au), ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, i'r cyfeiriad y byddaf yn cael fy hysbysu ohono yn ysgrifenedig, ac y gallai unrhyw wasanaethau mewn perthynas â'm benthyciad(au) gael eu darparu yn y cyfeiriad hwn neu gyfeiriad(au) eraill yn unol â'r hyn a bennir gan y benthyciwr o bryd i'w gilydd, ac y darparir y gwasanaeth o ddarparu'r benthyciad ym mhrif gyfeiriad y benthyciwr.
- g** Rydw i'n cytuno y bydd unrhyw gamau er mwyn ad-dalu a/neu mewn perthynas â neu mewn cysylltiad â'm benthyciad(au) a/neu'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau a fydd yn berthnasol, yn cael eu dwyn gerbron y llysoedd sifil arferol ac y byddant yn cael eu llywodraethu gan reolau cyffredinol gweithdrefn sifil.
- h** Rydw i'n cytuno y bydd fy nghais am fenthyciad, y benthyciad a'r contract rhyngof i a'r benthyciwr yn cael ei lywodraethu gan y gyfraith sydd mewn grym yn y man lle y lleolir cyfeiriad fy nghartref, fel y nodir yn y ffurflen gais hon (neu, os yw fy nghyfeiriad y tu allan i'r DU, cyfraith Lloegr).
- i** Rydw i'n cytuno yn ddi-alw'n-ôl y bydd gan y llysoedd yn y rhan o'r DU lle y mae cyfeiriad fy nghartref fel y nodir yn y ffurflen gais hon (neu lysoedd Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon pan fydd fy nghyfeiriad y tu allan i'r DU) yn meddu ar awdurdodaeth anghyfyngol i glywed unrhyw gamau neu achosion yn deillio o neu mewn perthynas â'r benthyciad a'r contract rhyngof i a'r benthyciwr ac rydw i'n ymrwymo'n ddi-alw'n-ôl i awdurdodaeth y llysoedd hynny, gan ildio unrhyw wrthwynebiad i awdurdodaeth y llysoedd hynny, ar yr amod na fydd hyn yn cyfyngu ar hawliau'r benthyciwr i ddwyn achos yn fy erbyn mewn unrhyw lys arall sy'n meddu ar awdurdodaeth gymwys.
- j** O'r dyddiad pan fyddaf yn cyflwyno'r ffurflen hon nes y dyddiad pan fydd fy menthyciad(au), ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn cael eu had-dalu'n llawn, rydw i'n cytuno y byddaf yn hysbysu'r benthyciwr o unrhyw newidiadau i'r manylion personol (gan gynnwys rhif Yswiriant Gwladol ("NINO")) a'r manylion cyswllt yr wyf wedi'u darparu fel y gofynnwyd yn unol â'r Rheoliadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff b.
- k** Os byddaf yn gadael y DU i fyw y tu allan i'r DU neu os byddaf y tu allan i system dreth y DU am unrhyw reswm arall, rydw i'n ymrwymo i hysbysu'r benthyciwr yn unol â'r Rheoliadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff b ac rydw i'n ymrwymo i'r cam o ddarparu fy manylion cyswllt newydd ac unrhyw fanylion cyswllt dilynol i'r benthyciwr nes bydd fy menthyciad, ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn cael eu had-dalu'n llawn.
- l** Rydw i'n cytuno cymryd yr holl gamau y bydd y benthyciwr yn gofyn i mi eu cymryd yn y dyfodol, gan ddarparu'r holl wybodaeth ofynnol i'r benthyciwr er mwyn sicrhau ad-daliad, yn unol â'r Rheoliadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff b.
- m** Os byddaf yn torri unrhyw rai o'r amodau y gwneir unrhyw fenthyciad(au) oddi tanynt, rydw i'n cytuno y bydd rheidrwydd arnaf i dalu unrhyw daliadau a chosbau y gallent fod yn berthnasol dan y Ddeddf a'r Rheoliadau a wnaethpwyd dan y Ddeddf, fel y byddant yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd neu ddeddfwriaeth a/neu Reoliadau olynol.
- n** Rydw i'n deall y bydd SLC yn cadarnhau fy NINO a'm manylion personol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ("DWP"). Os na fyddaf yn gwybod fy NINO, neu os na fydd modd dilysu'r rhif y byddaf yn ei roi, bydd DWP yn olrhain fy rhif ac yn ei roi i'r benthyciwr.
- o** Os byddaf yn torri unrhyw rai o'r amodau y rhoddwyd unrhyw fenthyciad(au) i mi oddi tanynt, rydw i'n cytuno y gall y benthyciwr rannu gwybodaeth sy'n cael ei chadw amdanaf i a'm cyfrif gydag unrhyw unigolyn, gan gynnwys llywodraeth neu asiantaeth y llywodraeth gwlad arall, y gallent gynorthwyo i nodi ble y byddaf a/neu wrth gymryd camau i adennill symiau benthyciad sy'n ddyledus.

Cyfeirnod Cwsmer (os oes un gennyh)

Eich llofnod (mewn inc)

Dyddiad heddiw

DIWRNOD MIS BLWYDDYN
 / /



Adran 9 Cwblhau'ch cais

9.1 A ydych chi wedi ateb yr **holl** gwestiynau sy'n berthnasol i chi?

Nac ydw – os na fyddwch yn cwblhau adran neu gwestiwn y gofynnwyd i chi ei gwblhau, gallai hyn oedi'ch cais.

Ydw

9.2 A ydych chi wedi llofnodi a dyddio'ch datganiad yn Adran 8?

Nac ydw – rhaid i chi lofnodi'r datganiad, ni allwn brosesu'ch cais hebdo.

Ydw

9.3 A ydych chi wedi cynnwys yr **holl** ddogfennau ategol neu'r ffurflenni ychwanegol wedi'u llenwi yr ydym wedi gofyn amdanynt?

Efallai y bydd **Adrannau 1 a 4** yn gofyn i chi anfon dogfennau ategol, gan ddibynnu ar eich sefyllfa.

Efallai bod **Adran 4** wedi gofyn i chi lenwi ffurflen ychwanegol hefyd i ddarparu gwybodaeth bellach.

Gwnewch yn siŵr bod gennych yr holl ddogfennau cywir a'r ffurflenni ychwanegol i gynorthwyo'ch cais. Bydd y nodiadau yn dweud wrthyhych yn union beth fydd angen i chi ei anfon, yn ddibynnol ar eich sefyllfa.

Nac ydw – casglwch yr **holl** ddogfennau yr ydym wedi gofyn amdanynt cyn dychwelyd eich cais, ni fyddwn yn ei dderbyn hebddynt.

Ydw – nawr darllenwch yr wybodaeth ar y dudalen nesaf i gael gwybod ble a phryd i dychwelyd eich ffurflen gais wedi'i llenwi.

Sut i ddychwelyd eich cais am Fenthyciad Ôl-raddedig

1 – A ydych chi wedi cynnwys popeth y mae angen i ni eu cael?

Bydd angen i chi anfon yr holl ddogfennau ategol yr ydym wedi gofyn amdanynt **ac** unrhyw ffurflenni ychwanegol y gofynnwyd i chi eu llenwi. Ni allwn brosesu'ch cais hebddynt.

2 – Cadarnhewch eich trefniadau postio

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi pwyso'r hyn rydych yn ei anfon ac y telir y pris postio cywir yn llawn.

Cofiwch ofyn am brawf postio.

3 – Dychwelwch eich cais mewn pryd

Ar ôl cwblhau'ch cais, dylech ei anfon atom cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau bod eich cyllid yn cael ei ddarparu yn barod erbyn i'ch cwrs gychwyn.

Anfonwch hwn at:

Cyllid Myfyrwyr Cymru

Blwch Post 211

Cyffordd Llandudno

LL30 9FU

Os na fyddwch yn anfon eich cais atom cyn y dyddiad cau, ni fyddwch yn gymwys i gael cyllid.

Dyddiad cau er mwyn ymgeisio

Y dyddiad cau ar gyfer cwrs sy'n para blwyddyn yw naw mis o ddiwrnod cyntaf eich blwyddyn academiaidd.

Ar gyfer cyrsiau sy'n para'n hirach na hyn, y dyddiad cau yw naw mis o ddiwrnod cyntaf blwyddyn olaf y cwrs.